

Gwasanaeth Tân ac Achub  
De Cymru



South Wales  
Fire and Rescue Service

## **SWYDDOG DYSGU A DATBLYGU (SGILIAU CYFFREDINOL A CHYNHWYSIAD)**

**Rhif y Swydd: 503164**

**CYFLOG: £26,999- £28,785**

**GRADD: 9**

**37 awr yr wythnos**

**(bydd pob swydd yn ddibynnol ar werthusiad swydd)**

Mae swydd barhaus barhaol wedi codi ar gyfer Swyddog Dysgu a Datblygu (Sgiliau cyffredinol a Chynhwysiad) o fewn Cyfarwyddiaeth Gwasanaethau Pobl yng Ngwasanaeth Tân ac Achub De Cymru. Wedi'i lleoli ym Mhencadlys GTADC yn Llantrisant, mae'r swydd llawn amser newydd hon (37 awr) yn ffurfio rhan o gynnydd cyffredinol tîm Dysgu a Datblygu'r Gwasanaeth.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gyfrifol amddarparu datrysiadau proffesiynol dysgu, datblygu ac ymgysylltu i weithwyr GTADC gydol eu gyrfaedd o'r adeg ymgynefino hyd at lwybrau datblygu dysgu. Yn ogystal â hyn, bydd y swydd yn canolbwyntio ar gynhwysiad ac ymgysylltu ar gyfer y Gwasanaeth, gan sicrhau bod yr holl weithgareddau tim yn cynyddu ac yn hyrwyddo cynlluniau cysylltu â gweithwyr a Chynllun Tân Cynhwysol y Gwasanaeth. Rhaid bod ymgeiswyr llwyddiannus felly'n dangos sgiliau cynllunio a chyflwyno ardderchog yn ogystal â brwdfrydedd i yrru diwylliant mwy cynhwysol a thrawsnewidiol ar draws y Gwasanaeth.

### **Sylwer nad yw'n bosib cyflawni'r rôl hon ar sail secondiad na rhannu swydd.**

Oherwydd natur y swydd gofynnir i'r unigolyn weithio fin nos neu ar benwythnosau weithiau a bydd rhywfaint o deithio ar draws ardal GTADC yn ofynnol. Mae'r gallu i deithio'n annibynnol yn ofynnol.

Gellir canfod mwy o fanylion sy'n ymwneud â'r swydd hon yn y Swydd-Ddisgrifiad a'r Fanyleb Person y gellir eu lawr lwytho ynghyd â ffurflen gais o dudalen Gweithio i Ni/Swyddi Gwag Diweddaraf ein gwefan [www.decymru-tan.gov.uk](http://www.decymru-tan.gov.uk). Os oes gennych unrhyw gwestiynau eraill ynglŷn â'r swydd hon, gallwch gysylltu â Serena Ford (**Rheolwr AD - Dysgu & Datblygu**) drwy e-bostio [s-ford@decymru-tan.gov.uk](mailto:s-ford@decymru-tan.gov.uk).

---

Dylid danfon ffurflenni cais gorffenedig at: Y Tîm Recriwtio ac Adnoddau, Pencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, Parc Busnes Forest View, Llantrisant CF72 8LX neu drwy law i [personel@decymru-tan.gov.uk](mailto:personel@decymru-tan.gov.uk). Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ffurflenni cais yw **Dydd Iau y 30ain i Fai 2019 am 12:00 ganol dydd**. Cynhelir cyfweiliadau **yn ystod yr wythnos yn cychwyn y 3<sup>ydd</sup> o Fehefin 2019**.

Sefydliad sy'n ystyriol o deuluoedd ydym a gweithredir polisi gweithio'n hyblyg. Gallai fod angen i'r ymgeisydd llwyddiannus fod yn destun gwiriad cofnodion troseddol sylfaenol boddhaol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ac ymgymryd â Phrawf Cyffuriau ac Alcohol cyn y gwneir unrhyw benodiad.

Mae croeso i chi gyfathrebu â ni naill ai yn Saesneg neu yn Gymraeg. Ni ymdrinir â ffurflenni cais a gyflwynir yn Gymraeg yn llai ffafriol. Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru'n credu yng ngwir werth gweithlu amrywiol ac rydym yn dymuno annog yn rhagweithiol ymgeiswyr o bob sector cymdeithas i ymgeisio.

